Senedd Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: Paratoadau yng Nghymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio
EAAL(5) EUP08
Ymateb gan Cytûn – Eglwysi ynghyd yng Nghymru

Welsh Parliament
External Affairs and Additional Legislation Committee
Exiting the European Union: Preparedness in Wales for the end of the transition period

Evidence from Cytûn – Churches together in Wales

---

Mae Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru) yn cynrychioli'r prif enwadau Cristnogol yng Nghymru, yn cynnwys y traddodiadau Catholig, Anglicanaidd, Anghydffurfiol, Penetcostaidd, Uniongred, y Crynwyr a Byddin yr Iachawdwriaeth, ynghyd â nifer o fudiadau Cristnogol eraill yng Nghymru. Gellir gweld rhestr lawn o'n haelodau yma: A full list of members can be found at: http://www.cytun.co.uk/hafan/pwy-ydym-ni/ Rhyngddynt, mae gan ein 19 aelod eglwys ryw 160,000 o oedolion sy'n gyflawn aelodau, a chyswllt sylweddol â llawer mwy o blant, pobl ifainc ac oedolion ymhob cymdogaeth ledled Cymru.

Ni fu i'r un o'n haelod eglwysi fynegi barn am barhad aelodaeth y DU o fewn yr Undeb Ewropeaidd cyn refferendwm 2016. Wedi'r refferendwm, fe sefydlwyd ganddynt dan nawdd Cytûn Weithgor ar Gymru ac Ewrop i ddatblygu ymateb Cristnogol Cymreig i ymadawiad y DU â'r UE a llunio perthynas newydd, a mae'r cyflwyniad hwn wedi ei gymeradwyo gan y Gweithgor hwnnw.

Rydym wedi trefnu ein sylwadau yn unol â'r penawdau ddarparwyd gan y Pwyllgor.

1. Yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i baratoi Cymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio

- Cydnabyddwn yr anawsterau wynebir gan Lywodraeth Cymru wrth gyflawni'r dasg hon tra hefyd yn mynd i'r afael â phandemig Covid-19, ac yng ngoleuni newidiadau mynych ym mholisïau Llywodraeth y DU.
- Yng nghyfnod cynnar pandemig Covid-19, fe fu eglwysi lleol yn ganolog wrth helpu pobl fregus a ddarganfu na allent brynu cyflenwadau hanfodol o fwyd a nwyddau hylendid a glanhau o ganlyniad i or-brynu gan eraill. Fe ragwelwyd patrwm tebyg pe byddem yn ymadael â'r Farchnad Sengl a'r Undeb tollau yn ddi-gytundeb. Tra bod cryn sylw i weithrediadau Llywodraeth Cymru i liniaru sefyllfa o'r fath ym Mawrth a Hydref 2019, clywsom lawer llai am baratoadau ar gyfer Rhagfyr 2020. Gan wybod maint y gofid a grëir gan sefyllfa felly, yn enwedig ymhlith y sawl a effeithiwyd gan brinder ym Mawrth-Ebrill 2020, fe fyddem am weld pwyso ar Lywodraeth Cymru i gyd-weithio â Llywodraeth y DU i wneud cynlluniau wrth gefn addas a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt er mwyn tawelu ofnau'r cyhoedd. Fel eglwysi, rydym yn ymwneud â darparu banciau bwyd, llochesi i'r digartref a gwasanaethau eraill y gallai fod eu hangen pe ceid diwedd anhrefnus i'r

cyfnod pontio. Rydym yn bryderus fod ymateb i'r argyfwng Covid-19, ac ymdrin â chymhlethdod y rheoliadau o ran ail-gychwyn addoli a gwasanaethau cymunedol dros yr hydref, wedi gadael adnoddau o ran arian, egni ac arbenigedd yn brin ymhlith cymunedau eglwysig lleol, ac y gall fod angen cymorth ychwanegol (trefniadol yn gymaint ag ariannol) os bydd angen i ni gefnogi ein cymunedau mewn ffordd debyg eto yn Ionawr 2021.

- Buom mewn cyswllt rheolaidd ag eglwysi yn yr Iwerddon (y Weriniaeth a'r Gogledd), a rydym yn rhannu eu pryderon ynghylch y broses heddwch ar eu hynys a'r perygl y ceir canlyniadau anfwriadol ar y cymodi a gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf rhwng y gwahanol draddodiadau crefyddol a gwleidyddol. Gwyddom i Lywodraeth Cymru fod yn gweithio ar faterion ynghylch y ffin forol rhwng yr Iwerddon a Chymru, ond – fel gyda'r paratoadau yn gyffredinol – credwn fod yr amser yn dod pan fo raid gwneud datganiadau mwy cyhoeddus am sut y gellir lliniaru'r trafferthion posibl ym mhorthladdoedd Cymru os ceir diwedd anhrefnus i'r cyfnod pontio, a sut y gellir helpu cymunedau'r porthladdoedd i ymdrin â chanlyniadau economaidd posibl trafferthion o'r fath, yn enwedig gan i'r porthladdoedd gael eu taro'n galed eleni gan argyfwng Covid-19.

- Buom yn falch o fod yn rhan o'r cyfarfodydd Bord Gron a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch y cynllun Preswylio'n Sefydlog. Fe fu'r wybodaeth a gafwyd gan y cyfarfodydd hynny yn hynod ddefnyddiol wrth friffio ein haelod eglwysi a hybu cyfranogiad yn y cynllun. Cawsom ein briffio hefyd gan CAB am y cynllun cynghori ychwanegol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, a hoffem gydnabod y budd ychwanegol gafwyd oherwydd i Lywodraeth Cymru weithredu fel hyn.

- Buom yn falch o gyfrannu at ystyried Cymru wedi'r cyfnod pontio trwy gynllun Lles Cymru yn y Dyfodol, ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyd-lynwyd gan CGGC. Mae'r rhaglen hon, yn rhychwantu amryfal sectorau, wedi dangos ffordd arloesol a gwerthfawr o fynd i'r afael ag argyfyngau mawr ar y cyd – nid dim ond Brexit, ond hefyd yr argyfwng hinsawdd.

2. Paratoadau'r prif sectorau economaidd yng Nghymru

Nid 'sector economaidd' yw eglwysi a grwpiau ffydd fel y cyfryw, ond rydym wrth gwrs yn gweithredu o fewn economi Cymru ac yn cyfrannu tuag ati.

- Rydym wedi gallu cymryd rhai camau i baratoi at ddiwedd y cyfnod pontio, megis cymryd rhan mewn ymweliad y trydydd sector dan nawdd CGGC i Frwsel yn Chwefror 2020, ac annog ein haelod eglwysi i gryfhau eu hymwneud â mudiadau traws-Ewropeaidd megis Cynhadledd Eglwysi Ewrop, Comisiwn yr Eglwysi ar Fudwyr yn Ewrop ac Esgobaeth Ewrop Eglwys Loegr, nad yw ymwneud â nhw yn ddibynnol ar fod yn aelod o'r UE.

- Ond mae yna feysydd lle bu'n anodd ymbaratoi gymaint ag y dymunem, megis y diffyg eglurder o hyd am y drefn mewnfudo 'ar sail pwyntiau' a sut y

bydd yn effeithio ar ymweliadau gan aelodau ac arweinyddion eglwysi tramor, a'n gallu i recriwtio oddi tramor gan ddefnyddio fisas 'gweinidogion yr efengyl' (Tier 2), 'gweithwyr crefyddol' (Tier 5), myfyrwyr a gwirfoddolwyr tramor. Mae'r eglwys yn gorff sylfaenol fyd-eang a mae cadw cysylltiadau rhyngwladol trwy gyfnewid fel hyn medrau, arbenigedd a gweledigaeth yn hanfodol i ni. Mae ymestyn y gofynion fisa hyn i'r UE wedi arwain at leihad yn y cyfnewid rhyngwladol hwn, a gobeithiwn y gallwn, wedi'r pandemig, gallu adfer cysylltiadau o'r fath wyneb yn wyneb yn ogystal ag yn rhithiol.

3. Effaith y trafodaethau ynghylch cytundebau rhyngwladol y DU ar y paratoadau, gan gynnwys y cytundeb (neu'r cytundebau) ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, cytundebau masnach rydd arwyddocaol eraill a'r rhaglen Trafod a Chydgysylltu Parhad Masnach Masnach

- Yn ei gyfarfod ar 24 Awst 2020, derbyniodd y Gweithgor wybodaeth am Fil Marchnad Fewnol y DU, a gyhoeddwyd ar Fedi 9. Rydym yn poeni'n arw am effeithiau posibl y Bil hwn ar y setliad datganoli gan ei fod yn ceisio sicrhau cydnabyddiaeth gilyddol a gwahardd gwahaniaethu o ran nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau proffesiynol – llawer ohonynt yn ymwneud â meysydd polisi datganoledig – heb ymrwymiad tebyg i egwyddorion megis sybsidiaredd a chymesuredd. Tra bod aelodau eglwysi yn arddel nifer o argyhoeddiadau ynghylch datganoli a'r rhychwant addas iddo, mae ein holl aelod eglwysi yn credu y dylid, wrth weithredu canlyniad refferendwm 2016 am aelodaeth yn yr UE, barchu hefyd canlyniad refferendwm 2011 y "bydd y Cynulliad yn ennill pwerau i ddeddfu ar bob pwnc yn y meysydd sydd wedi'u datganoli heb fod angen cytundeb Senedd y DU yn gyntaf". Rydym yn ysgrifennu am y materion hyn at aelodau Tŷ'r Arglwyddi sydd â chysylltiadau ag eglwysi yng Nghymru cyn i'r Arglwyddi ddechrau ystyried y Bil ar Hydref 19.

- Rydym yn pryderu hefyd am effeithiau posibl cytundebau masnach ryngwladol ar faterion sydd o bwys i lawer o'n haelodau, megis lles anifeiliaid, safonau llafur, gwarchodaeth amgylcheddol, ayb. Mae llawer o'r meysydd hyn hefyd wedi eu datganoli i Gymru ar hyn o bryd ac fe fu eglwysi yn weithgar yn ceisio gwelliannau yn eu cylch. Rydym yn pryderu fod y Bil Masnach gerbron Senedd San Steffan ar hyn o bryd yn peryglu pwerau datganoledig yn y meysydd hyn, ac yn nodi gyda chryn bryder sylw'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn eu hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Bil fod cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Bil wedi ei seilio ar "orddibyniaeth ar ymrwymiadau anneddfwriaethol a geisir drwy gytundebau rhynglywodraethol nad ydynt yn rhwymo." (para 86). Nodwn i gwestiynau tebyg godi ynghylch Bil Pysgodfeydd y DU. Mae hon yn agwedd ar baratoi at ddiwedd y cyfnod pontio y gall Llywodraeth Cymru yn unig ei chyflawni – ni all cymdeithas sifil wneud hynny – a hyderwn y gellir cryfhau'r gwaith yn y maes hwn.

4. Cytundebau rhynglywodraethol o fewn y DU yn ymwneud â diwedd y cyfnod pontio, gan gynnwys y rhaglen fframweithiau cyffredin

- Gweler ein sylwadau ar Gn 3. Fe ymddengys fod Bil y Farchnad Fewnol yn gosod darpariaeth ddeddfwriaethol yn lle llawer o'r fframweithiau cyffredin arfaethedig, ac fel y Pwyllgor DCC rydym yn pryderu am "orddibyniaeth ar ymrwymiadau anneddfwriaethol … nad ydynt yn rhwymo".

Byddem yn falch o gynnig unrhyw gymorth pellach y dymunech tuag at ymchwiliad y Pwyllgor.